Ysgoloriaeth Gymraeg Prifysgol De Cymru

Mae ysgoloriaethau gwerth £250 ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y flwyddyn academaidd hon, dymuna'r Brifysgol gefnogi myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig (lefelau 4 – 7) sy'n astudio **o leiaf 5 credyd** drwy gyfrwng y Gymraeg mewn unrhyw faes.

Byddwn yn fodlon ystyried unrhyw geisiadau gan fyfyrwyr a fyddai'n dymuno astudio'n Gymraeg ar draws amryw fodiwlau, cyhyd â'i fod yn cyfateb i o leiaf 5 credyd – e.e. darpariaeth *Eich Gyrfa a'r Gymraeg*, modiwl profiad gwaith, gwaith annibynnol, cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, seminarau, darlithoedd.

Er mwyn gwneud cais am yr ysgoloriaeth:

- Rhaid i fyfyrwyr fod wedi cofrestru fel myfyriwr Prifysgol De Cymru yn y flwyddyn academaidd hon
- Rhaid cwblhau a dychwelyd ffurflen gais at cymraeg@decymru.ac.uk **erbyn y dyddiad cau a ddangosir ar y wefan**
- Telir yr ysgoloriaeth mewn un rhan.
- Telir y taliad ym mis Mai, yn amodol ar gadarnhad bod y myfyriwr wedi cwblhau o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r staff academaidd perthnasol.

Er mwyn **derbyn** yr ysgoloriaeth **yn llawn**:

• Rhaid i fyfyrwyr fod wedi **llwyddo** wrth wneud cais am yr ysgoloriaeth
• Rhaid i fyfyrwyr fod wedi **cofrestru ar y modiwlau perthnasol**
• Rhaid i fyfyrwyr fod wedi **cwblhau'r modiwlau perthnasol yn llwyddiannus**
• Rhaid i fyfyrwyr fod yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – gallwch ymaelodi gyda'r Coleg am ddim trwy fynd i'r wefan: **www.colegcymraeg.ac.uk**
• Disgwylir i fyfyrwyr gyfrannu at, neu gefnogi **digwyddiadau cyfrwng Cymraeg** yn y Brifysgol

Os ydych chi'n gymwys i wneud cais, cwblhewch y ffurflen hon ac e-bostiwch hi yn ôl at: **cymraeg@decymru.ac.uk**

Ysgoloriaeth Gymraeg

Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Rhif ffôn:
Blwyddyn astudio:
Teitl llawn y cwrs:

Atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Sut ydych chi'n meddwl y bydd astudio rhan o'ch cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddefnyddiol / o fudd i chi yn y dyfodol? (Ysgrifennwch o leiaf 50 gair).

2. Pam ydych chi'n credu y dylai'r Brifysgol roi'r ysgoloriaeth i chi? (Ysgrifennwch o leiaf 50 gair).

3. Eglurwch sut byddwch chi'n gallu cyfrannu at, neu gefnogi gweithgareddau Cymraeg Prifysgol De Cymru? (Ysgrifennwch o leiaf 50 gair).

4. Sut cawsoch wybod am Ysgoloriaeth Cyfrwng Cymraeg Prifysgol De Cymru?

• Dwi'n rhoi caniatâd i Brifysgol De Cymru ddefnyddio'r wybodaeth yn y ffurflen hon er mwyn prosesu fy nghais.
• Dwi'n datgan fod y wybodaeth hon yn wir, yn gyflawn ac yn gywir.
• Dwi wedi darllen Telerau ac Amodau Ysgoloriaeth £250 Cyfrwng Cymraeg Prifysgol De Cymru

Dyddiad	
Llofnod	